# Radio yn y DU

## Ymgynghoriad cyhoeddus gan Ofcom ar ddyfodol radio

## Crynodeb

**Cyhoeddwyd**: 15 Rhagfyr 2004

**Dyddiad cau ar gyfer eich ymatebion**: 7 Mawrth 2005 am 5pm

# Radio yn y DU: paratoi at y dyfodol

Ofcom yw'r corff rheoleiddio annibynnol dros ddiwydiannau cyfathrebu'r DU. Ein rôl yw edrych ar ôl gwasanaethau teledu, radio, telegyfathrebu (telathrebu) a chyfathrebu di-wifr.

Rydym bellach yn cynnal adolygiad o rywbeth sy'n cael ei ddefnyddio gan bron pawb yn y DU – sef radio. Yn ogystal â bod y ffurf hynaf o ddarlledu, mae'n un o'r rhai mwyaf poblogaidd a hawsaf ei defnyddio. Cawn wrando arno gartref, yn y gwaith, yn ein ceir ac wrth wneud pethau eraill. Ac mae modd ei godi ar bopeth o radio traddodiadol a theledu lloeren, i chwaraewyr mp3 (fel iPods), ffonau symudol a chyfrifiaduron.

A dweud y gwir, rydym yn gwrando ar bron cymaint o radio ag y gwyliwn ni deledu, felly mae'n hanfodol ein bod yn cynllunio dyfodol radio yn ofalus iawn. Rydym am fod yn siŵr y byddwn yn parhau i gael mwy o ddewis, safonau uwch, a gwasanaethau lleol yn ogystal â chenedlaethol. Rhaid i ni fachu'r holl fanteision sy'n dod yn sgîl darlledu digidol hefyd.

Dyma pam rydym yn lansio ymgynghoriad ar wasanaethau radio, a chrynodeb o gam 1 o'r broses yw'r llyfryn byr hwn. Yma, amlinellwn ein meddyliau cynnar am ddyfodol radio, ac rydym yn gofyn i gymaint o bobl â phosibl rannu eu barn hefyd. Rydym am glywed eich barn chi, ni waeth ydych chi:

- Yn gwrando ar y radio;
- yn cynnal gorsaf radio;
- yn ymwneud â grŵp cymunedol lleol; neu
- yn bwriadu sefydlu gorsaf radio.

Defnyddiwn eich awgrymiadau yng ngham 2, pan gyhoeddwn ein cynigion cadarn am ddyfodol radio.

Gobeithiwn fod y ddogfen gryno hon yn ddefnyddiol os byddwch chi, fel llawer o bobl, am leisio'ch barn ond heb yr amser - na'r wybodaeth dechnegol - i fynd drwy'n prif ddogfen ymgynghori. (Ond os hoffech chi wneud, fe welwch y testun llawn yn: **www.ofcom.org.uk/consult/condocs/radio_review/**

## Sut i ymateb

Os oes gennych farn neu brofiad yr hoffech chi eu rhannu, byddem yn gwerthfawrogi'ch adborth. Mae diddordeb arbennig gennym yn y rhesymau y tu ôl i'ch sylwadau a, lle bo modd, dystiolaeth go iawn i'w hategu.

Hefyd hoffem glywed oddi wrth grwpiau sydd â diddordeb fel cyrff defnyddwyr a chymdeithasau masnach. Os ydych chi'n cynrychioli un o'r cyrff hyn, a fyddech cystal â gadael i ni wybod pa un.

E-bostiwch eich ymateb i peter.davies@ofcom.org.uk, wedi ei farcio **'Radio – preparing for the future'.**

Os oes modd, mae'n well gennym ymatebion fel atodiadau i negeseuon e-bost, yn fformat Microsoft Word. Hefyd atodwch ein dalen gyflwyno, y cewch ei lawrlwytho ar wahân o adran 'ymgynghoriadau' ein gwefan. Os anfonwch ymateb i ni drwy e-bost, nid oes angen i chi anfon copi caled atom hefyd.

Cewch bostio neu ffacsio'ch ymateb hefyd i:

**Peter Davies**
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA.
**Ffacs: 020 7981 3476**

Sylwch nad ydym fel arfer yn cydnabod ymatebion.

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw **7 Mawrth 2005 am 5pm**.

Credwn ei bod yn bwysig bod unrhyw un sydd â diddordeb yn yr adolygiad yn cael gweld y sylwadau sydd wedi dod i law ar ein gwefan (www.ofcom.org.uk). Am y rheswm hwn, dim ond os gofynnwch i ni wneud y byddwn yn trin eich cyfraniad fel bod yn gyfrinachol. Rhoddwn **bob** ymateb arall ar ein gwefan ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben.

# Y diwydiant radio yn y DU

Mae radio yn y DU yn fyw ac yn iach.

Mae mwy o bobl yn gwrando ar ddewis ehangach o orsafoedd - ac am fwy o amser - nag erioed o'r blaen. Mae rhyw 90% ohonom yn gwrando ar y radio bob wythnos, ac nid radio traddodiadol yn unig ychwaith - rydym yn gwrando drwy deledu lloeren, ffonau symudol, chwaraewyr mp3, cyfrifiaduron a'r genhedlaeth newydd o radios digidol.

Mewn gwirionedd, os ydych chi'n wrandäwr nodweddiadol, bydd gennych chi radio ymlaen am bron 23 awr yr wythnos. Ac mae digonedd o ddewis gennych - mae yna radio lleol a chenedlaethol, y BBC a radio masnachol, wedi ei ddarlledu fel signalau analog a digidol.

Serch hynny, rhaid i'r diwydiant radio fod yn fodlon symud gyda'r amseroedd.

Y dyddiau hyn, gall chwaraewr mp3 storio'ch holl gasgliad o gerddoriaeth mewn rhywbeth maint pecyn sigarennau, felly ni fu erioed gymaint o gystadleuaeth am glust y gwrandawr. Mar gwrandawyr dan 30 oed yn tueddu i symud i fyny ac i lawr yr amleddau nes dod o hyd i'r hyn maent ei eisiau, yn hytrach na chadw at un orsaf radio. I'r diwydiant radio, mae'r dyfodol yn dibynnu ar fuddsoddi yn ei raglenni a chyflwyno'r hyn mae gwrandawyr eisiau ei glywed.

## Beth yw'n rhan ni?

Mae angen i'r diwydiant radio gael ei reoleiddio am nad oes gan wrandawyr ond dewis cyfyngedig o orsafoedd yn eu hardal. Heb rai rheolau, mae'n annhebygol y byddem i gyd yn mwynhau'r ystod a'r cydbwysedd eang o raglenni radio sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd, a hynny'n lleol ac yn genedlaethol.

Dyna pam mae radio, sy'n analog yn bennaf ar hyn o bryd, yn cael ei reoleiddio'n eithaf trwm. Mae yna farn y cawn lacio'r rheoleiddio pan fydd radio digidol yn dod yn fwy helaeth ac yn creu llawer mwy o ddewis. Ond hyd yn oed wedyn, nid ydym wedi ein hargyhoeddi y byddai'r farchnad, o adael iddi wneud fel y myn, yn cyflwyno popeth y mae dinasyddion yn ei ddisgwyl a'i angen gan radio.

Credwn fod angen rheoleiddio o hyd am fod radio yn chwarae rhan bwysig ym mywydau pobl, fel defnyddwyr ac fel dinasyddion. Teimlwn hefyd y dylai ei gryfderau unigryw gael eu hamddiffyn. Er enghraifft, mae'n debyg bod radio'n well na theledu wrth gyflwyno mwy o raglenni o ddiddordeb lleol, ac yn gallu gwasanaethu ardaloedd bach iawn (fel gorsaf cymuned wledig). Mae mewn sefyllfa ddelfrydol i gyflwyno pob math o gerddoriaeth, o roc a jazz i glasurol a

gwerin, ac mae'n fan cychwyn rhagorol i dalent newydd, nid yn unig ym maes cerddoriaeth ond mewn meysydd eraill fel drama a chomedi hefyd.

## Ein hamcanion dros radio

Seilir ein hadolygiad o radio ar y dyletswyddau a osodir arnom gan y Ddeddf Gyfathrebu (2003) a'r Deddfau Darlledu (1990 a 1996). Rydym wedi cyfuno'r rhain â'n dadansoddiad ein hunain o ble mae angen rheoleiddio, a'r potensial o ran lles y cyhoedd, wrth greu'r amcanion canlynol ar gyfer rheoleiddio radio.

- **Annog dewis a syniadau newydd i wrandawyr ar lefel genedlaethol, ranbarthol, leol a chymunedol**. Mae hyn yn golygu:
    - gwneud yn siŵr bod radio masnachol yn cynnig ystod eang o orsafoedd a deunydd, yn enwedig mewn darlledu lleol;
    - creu mwy o ddewis drwy drwyddedu mwy o wasanaethau analog ac annog twf radio digidol; a
    - helpu i greu'r amodau i ddarlledu masnachol ffynnu, ehangu dewis a buddsoddi yn ei ddyfodol.

- **Darparu radio sydd wedi ei ddylunio er lles y cyhoedd**. Byddwn yn llunio set o 'ddibenion cyhoeddus' y credwn y gallai radio eu bodloni, ac a fydd gobeithio yn arwain at drafodaeth eang. Edrychwn ar:
    - rolau radio cyhoeddus a masnachol;
    - faint o arian cyhoeddus a rheoleiddio y bydd eu hangen; a
    - phwysigrwydd cael llawer o wahanol fathau o orsaf radio.

  Y peth cyntaf ar ein rhestr yw annog rhwydwaith o orsafoedd radio cymunedol newydd.

- **Helpu radio i ffynnu gyda chyn lleied o ymyrraeth â phosibl**. Byddwn:
    - yn canolbwyntio mwy ar yr hyn mae gwrandawyr yn ei glywed mewn gwirionedd, a llai ar sut mae rhaglenni'n cael eu gwneud;
    - yn gweithredu mor gyson â phosibl; ac
    - yn addasu'n rheolau lle gwelwn newidiadau yn y farchnad neu fwy o gystadleuaeth.

# Ffocws yr adolygiad hwn o radio

## 1 Rheoleiddio deunydd lleol ar radio masnachol

Fel y mae pethau, radio analog (y radio ‘normal’ y mae’r mwyafrif ohonom yn gwrando arno) sy’n dod o dan y rheolaeth drymaf. Mae’n bosibl y bydd hyn yn newid yn y dyfodol wrth i radio digidol ddod yn fwy helaeth ond, am y tro, mae angen gwneud yn siŵr bod dewis eang o raglenni lleol da o hyd.

Ond, a oes angen yr holl reoleiddio presennol mewn gwirionedd? Rydym wedi cynnal ymchwil ymhlith cynulleidfaoedd i ddarganfod beth sydd o wir bwys i wrandawyr, a pha effaith ariannol y câi unrhyw newidiadau arfaethedig ar y gorsafoedd radio.

Ar hyn o bryd, mae cryn dipyn o reoleiddio sy’n effeithio ar sut mae rhaglenni lleol yn cael eu gwneud, yn hytrach na chanolbwyntio ar y canlyniad terfynol. Yn y dyfodol, hoffem ganolbwyntio mwy ar yr hyn mae gwrandawyr yn ei glywed. Hefyd bydd gan orsafoedd fwy o gyfrifoldeb i ddangos eu bod yn bodloni diddordebau lleol.

Ein prif ffordd o reoleiddio gorsaf radio fydd barnu eu rhaglenni yn erbyn y galwadau o ran ‘fformat’ a bennir yn eu trwydded. Ond bellach caiff hyn ei ategu gan set newydd o ganllawiau clir sy’n ymdrin â rhaglenni lleol. Yn ogystal, bydd rhaid i orsafoedd ddilyn ein codau rhaglen o hyd, sef y rheolau ynghylch safonau, fel peidio â pheri ‘niwed a thramgwydd’ (gweler ein gwefan: www.ofcom.org.uk).

Fel rhan o gyflwyno’r canllawiau lleol newydd hyn, rydym hefyd yn awgrymu’r newidiadau canlynol.

- **Llacio’r rheol ar leoliad stiwdios**

  Ar hyn o bryd, dywed y rheol fod rhaid i stiwdio gorsaf radio fod o fewn yr ardal mae’n darlledu iddi - mewn geiriau eraill, ‘ardal ei chwmpas mesuredig’. Credwn fod y cyfyngiad hwn yn rhy lym, a’n bwriad yw cynnig caniatáu i stiwdios gael eu lleoli yn unman o fewn ardal drwydded gorsaf. Mewn achosion arbennig iawn, byddwn hefyd yn ystyried caniatáu lleoli stiwdio ymhellach byth i ffwrdd.

- **Rhannu rhaglenni (‘rhwydweithio’)**

  Rhaglenni ‘wedi eu rhwydweithio’ yw rhaglenni a rennir gan ddwy neu ragor o orsafoedd ar wahanol adegau o’r dydd. Dylai pob gorsaf ddarlledu rhywfaint o raglenni a wnaed yn lleol hefyd, sy’n perthyn

iddynt hwy yn unig. Mae hyn yn codi'r cwestiwn a ddylai gorsafoedd gael eu cyfyngu o ran faint o 'rwydweithio' maent yn cael ei wneud.

Credwn y dylai pob gorsaf fod yn rhydd i rwydweithio cymaint ag y dymunant, ar yr amod eu bod yn bodloni'r lefel o raglenni a wnaed yn lleol a bennir yn eu trwydded.

- **Awtomeiddio**

  Yn debyg i lawer o ddiwydiannau, mae radio wedi manteisio ar dechnoleg drwy awtomeiddio llawer o'r cydrannau a'r swyddogaethau sy'n rhan o gyfansoddiad rhaglen. Diffiniad yr Awdurdod Radio o hyn yw "rhaglennu a reolir gan gyfrifiadur, sy'n cynnwys chwarae'r gerddoriaeth, traciau llais, pytiau rhagbaratoedig, hysbysebion ac elfennau eraill o raglenni yn ôl amserlen sydd wedi ei rhag-ddiffinio, a heb fod o dan reolaeth uniongyrchol cyflwynydd sydd ar yr awyr".

  Y cwestiwn yw ai cyfyngu ar awtomeiddio yw'r ffordd orau o ddiogelu ansawdd.

  Fel a soniwyd uchod, hoffem leihau'r cyfyngiadau ar sut mae rhaglenni'n cael eu gwneud. Yn achos awtomeiddio, ein hawgrym ni yw dileu'r cyfyngiadau hyn yn gyfan gwbl. Ond os gwnawn hynny ac os bydd rhaglenni'n dioddef o ganlyniad, efallai yr ystyriwn ddod â chyfyngiadau yn ôl eto.

- **Newyddion lleol**

  Mae nod clir gennym o wneud yn siŵr bod gwrandawyr radio lleol yn derbyn gwasanaeth newyddion ansawdd uchel, sy'n ymdrin â newyddion lleol a chenedlaethol fel ei gilydd.

  Yr hyn sy'n bwysig i wrandawyr yw ansawdd, perthnasedd, cyflymder a chywirdeb newyddion - nid o ble mae'n cael ei ddarllen. Gan hynny, byddwn yn ystyried a ddylid caniatáu i grwpiau o orsafoedd weithredu gwasanaethau newyddion wedi eu canoli neu 'hybiau', tra'n parhau i fodloni'r safonau a ddisgwyliwn.

  Un cwestiwn amlwg yw a oes modd i'r system hybiau barhau i gynhyrchu gwasanaeth newyddion lleol cyflawn, sydd mewn cysylltiad llawn â'r ardal mae'n ei gwasanaethu. Un syniad posibl yw i bob gorsaf gael newyddiadurwyr proffesiynol amser llawn ar ddyletswydd, wedi eu lleoli yn ardal leol yr orsaf, yn ystod holl oriau rhaglenni lleol.

  Ond sylweddolwn y byddai hyn yn golygu ein bod yn ymwneud â 'sut' mae rhaglenni'n cael eu gwneud. Felly croesawn eich syniadau ar y ffyrdd gorau o ddiogelu safonau mewn newyddion radio lleol.

- **Chwarae yn ôl y rheolau**

  Bwriadwn wneud yn siŵr bod gorsafoedd radio yn bodloni amodau eu trwyddedau, a'n canllawiau ni, drwy:

  - barhau i archwilio'r gorsafoedd pan gawn gwynion oddi wrth wrandawyr neu gystadleuwyr;

  - cynnal hapwiriadau er mwyn gwneud yn siŵr bod gorsafoedd yn bodloni telerau eu trwydded, a'r canllawiau ar raglenni lleol; a

  - chyflwyno system 'hunan-ardystio', lle bo'n rhaid i orsafoedd allu dangos eu bod wedi bodloni eu hymrwymiadau.
    Yn ôl y system hon byddai gan bob gorsaf ffeil sydd ar gael i unrhyw un yn stiwdio'r orsaf ac ar eu gwefan. Byddai'r ffeil hon yn cynnwys tystiolaeth i ddangos:
    - sut mae'r orsaf wedi bodloni ei gyfrifoldebau lleol;
    - faint o awtomeiddio mae wedi ei ddefnyddio;
    - ble mae rhaglenni lleol wedi eu gwneud; a
    - sut mae'r orsaf wedi darparu ei newyddion lleol (er enghraifft, faint o newyddiadurwyr mae wedi eu cyflogi'n lleol).

    Ein bwriad yw gwneud cyhoeddi'r ffeil hon yn un o amodau pob trwydded radio.

Beth yw'ch barn chi? A chredwch y bydd y cynigion hyn yn gweithio, ac a fyddant yn cyflawni'r hyn rydym am iddynt ei gyflawni?

## 2 Ei gwneud yn haws i radio digidol dyfu

Mae gan radio digidol lawer o fanteision dros y system analog sydd ohoni, ac yn y DU rydym ymhlith y cyntaf i'w cydnabod. Pan gyfrifwch nifer y bobl sydd eisoes yn gallu derbyn radio digidol, a nifer y gorsafoedd digidol sydd eisoes yn darlledu, y DU sydd ar y blaen yn Ewrop, ac o bosibl y byd.

Ymhlith ei fanteision, mae radio digidol:
- yn gallu cynnig llawer mwy o orsafoedd nag analog;
- â derbyniad cliriach;
- yn haws tiwnio iddo;
- yn gwneud defnydd llawer gwell o'r amleddau sydd ar gael;
- yn cyflwyno data – testun a lluniau – ynghyd â sain; ac
- yn cynnig ffwythiannau i chi fel gallu atal darllediad byw am saib, neu ei droi yn ôl.

Hefyd mae radio digidol ar gael mewn nifer o ddulliau neu 'blatfformau', er enghraifft ar radios darlledu awdio digidol (DAB), ar deledu lloeren a thros y

rhyngrwyd. Y cynnydd yn y cynulleidfaoedd sy'n defnyddio'r gwahanol blatfformau hyn fu un o'r tueddiadau pwysig ym myd radio yn ddiweddar.

Mae radios DAB yn arbennig o bwysig yn hyn o beth am eu bod yn symudol, yn debyg i'n radios analog. Disgwyliwn i werthiannau radios DAB fynd dros un miliwn erbyn Nadolig 2004.

A'r dechrau yn unig yw hwn yn ein barn ni. Disgwyliwn y bydd mwy byth o bobl am wrando ar radio digidol wrth i ni symud tuag at drosglwyddo i deledu digidol. Bydd gwasanaethau newydd cyffrous hefyd yn golygu y daw radio digidol yn eitem anhepgor – er enghraifft, gwasanaethau radio sy'n gadael i chi edrych ar ddelweddau a hyd yn oed bytiau o fideo, ac yn gadael i chi dalu i lawrlwytho'ch hoff draciau i'ch radio neu ddyfais arall.

## Dileu'r rhwystrau i radio digidol

Er bod y dyfodol yn edrych yn gyffrous, mae yna rwystrau o hyd sy'n arafu cynnydd radio digidol.

Yma, rhestrwn rai ohonynt a'n cynigion i fynd i'r afael â nhw. Y tu ôl i'n syniadau y mae'r nod o greu mwy o ddewis, mathau newydd o wasanaethau, mwy o wasanaethau cenedlaethol a darlledu lleol rhagorol i bawb.

Nid yw un dechnoleg na phlatfform darlledu'n well gennym na'r llall. Cyn belled â phosibl, bwriadwn hefyd adael y farchnad i'w dulliau gweithio arferol, tra'n diogelu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr.

Problem
**Nid oes gan DAB gwmpas cyflawn eto am ei wasanaethau lleol a chenedlaethol**

Ein cynigion

- Gweithiwn i sicrhau cytundeb rhyngwladol i godi trosglwyddyddion mewn ardaloedd ffiniol ac arfordirol.
- Mater i'r diwydiant telathrebu yw a oes angen mwy o drosglwyddyddion, a rhai mwy grymus. Gweithiwn gyda'r diwydiant, a chyda'n cymdogion yn Ewrop, i helpu i gydlynu cynlluniau cwmpas a helpu darlledwyr i sicrhau'r canlyniadau gorau.

Problem
**Nid oes gan bob ardal wasanaethau radio digidol DAB**

Ein cynigion

- Ein gobaith yw rhyddhau mwy o amleddau (mewn tri bloc pellach o sbectrwm Band III VHF) i lenwi'r bylchau yng nghwmpas radio digidol lleol.
- Drwy ddefnyddio'r rhain ac amleddau eraill sydd heb eu defnyddio, byddai pob rhan o'r wlad yn dod o dan o leiaf un set o wasanaethau radio digidol lleol.
- Bwriadwn drwyddedu'r amleddau hyn o dan Ddeddf Ddarlledu 1996, a allai helpu'r BBC i gwblhau cwmpas eu gorsafoedd lleol a chenedlaethol, gan fod ganddynt yr hawl o dan y gyfraith i ddefnyddio amleddau a drwyddedir yn y modd hwn.

Problem
**Hyd yn oed os oes mwy o amleddau ar gael, ni fydd rhai gorsafoedd llai o faint yn gallu fforddio darlledu ar radio digidol DAB o hyd**

Ein cynigion

- Gweithiwn gyda'r diwydiant i geisio gwneud darlledu digidol yn bosibilrwydd i'r gorsafoedd masnachol a chymunedol llai hynny.
- Gallai hyn fod ar radio digidol DAB, neu gynnwys platfformau eraill (fel y rhyngrwyd).

Problem
**Mae'r dewis o orsafoedd sydd ar gael ar DAB mewn rhai ardaloedd yn fach o'i gymharu â beth sydd gan blatfformau digidol eraill i'w gynnig**

Ein cynigion

- Mae'n fwriad gennym ryddhau mwy o amleddau ar Fand III VHF, sy'n cynnwys y rhan fwyaf o Brydain Fawr (er nad yw'r rhain ar gael ar hyn o bryd yng Ngogledd Iwerddon).
- Credwn y dylai'r amleddau hyn gael eu rhyddhau heb i gyfyngiadau'r Ddeddf Ddarlledu effeithio arnynt. Hoffem gael eich barn chi ar hyn.
- Hefyd hoffem eich barn ar y galw tebygol am amleddau cenedlaethol, am wasanaethau radio, aml-gyfrwng neu ddata nad ydynt yn gysylltiedig â rhaglenni.
- Hoffem wybod hefyd a chredwch y dylai'r cyfyngiad o 20% o gynhwysedd ar gyfer gwasanaethau data ar radio digidol DAB gael ei godi. (Er hynny, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.)

- Er mwyn gwneud lle am fwy o wasanaethau radio, bwriadwn ddileu'r angen i orsafoedd ddefnyddio isafswm safon dechnegol ar gyfer gwasanaethau radio digidol, a chyflwyno system yn lle hynny sy'n mesur ansawdd y sain sy'n dod allan o'r radio.

Problem
**Ychydig o le am radio sydd ar deledu digidol daearol (mewn geiriau eraill, teledu digidol drwy'ch erial)**

Ein cynnig

- Mae'n bosibl yr awgrymwn lacio'r rheol sy'n dweud bod rhaid i 90% o gynhwysedd teledu daearol digidol fod ar gael ar gyfer gwasanaethau rhaglenni teledu digidol, a gwasanaethau cysylltiedig. Ar hyn o bryd, mae hyn yn cyfyngu i 10% eu cynhwysedd ar gyfer radio digidol masnachol.

Problem
**Nid yw'r mwyafrif o wrandawyr yn gwybod am radio digidol a'i fanteision**

Ein cynnig

- Byddwn yn annog y diwydiant radio i wneud mwy i hybu radio digidol i wrandawyr.

Problem
**Mae radios DAB yn dal yn ddrud o'u cymharu â rhai analog**

Ein cynnig

- Credwn y bydd y gwahaniaeth mewn pris yn lleihau:
  - os cymerwn ni'r camau rydym wedi eu crybwyll i helpu'r diwydiant i dyfu;
  - os bydd y diwydiant yn ei farchnata ei hun fwy; ac
  - os cydweithiwn â'n cymdogion yn Ewrop i gytuno ar safon ryngwladol gyffredin.

**Yn debyg i deledu, a ddylai radio cyfan newid i ffurf ddigidol yn y blynyddoedd nesaf?**

Ni chredwn felly.

Un o'r prif resymau pam y trosglwyddir pob gwasanaeth teledu i ddigidol yw y bydd hynny'n rhyddhau'r amleddau analog am bethau pwysig eraill.

Nid yw hynny’n gymwys i radio yn yr un modd. Nid oes unrhyw ddefnyddiau pwysig ar gyfer FM ac AM ar wahân i ddarlledu. Hefyd byddai’n ddrud trosglwyddo. Byddai angen derbynyddion digidol newydd ar bawb, a byddai’n rhaid i weithredwyr godi mwy o drosglwyddyddion. Yn ogystal, nid oes lle awtomatig yn y byd digidol eto am y gorsafoedd analog a chymunedol bach.

# Mwy o ddewis mewn radio analog

Mae’n werth ailadrodd mai un o’n nodau pwysicaf yw annog mwy o ddewis a syniadau newydd yn radio’r DU ar bob lefel – yn genedlaethol, yn rhanbarthol, yn lleol ac mewn cymunedau bach. Ein prif ffordd o gyflawni hynny yw trwyddedu mwy o orsafoedd radio.

Fel a welwyd, bydd technoleg ddigidol yn chwarae rhan gyffrous, ond ymhell cyn yr adolygiad hwn roeddem eisoes wedi cyhoeddi’r cynlluniau i drwyddedu o leiaf 30 o orsafoedd FM masnachol newydd, ac ystod eang o orsafoedd cymunedol.

Rydym yn canolbwyntio hefyd ar y donfedd ganol (MW). Mae’r hen dechnoleg hon yn dal i gynnig nifer o gyfleoedd gwych, ac rydym wedi nodi 10 amledd a allai gael eu defnyddio ar gyfer radio cymunedol lleol, neu wasanaethau masnachol lleol a rhanbarthol newydd.

Ochr yn ochr â’r gwaith trwyddedu radio cymunedol sydd eisoes yn digwydd, hoffem glywed oddi wrth bobl sydd â diddordeb mewn trwyddedau MW newydd, a deiliaid presennol trwyddedau a hoffai wella eu cwmpas presennol.

Ar ôl gweld y galw am drwyddedau cymunedol a masnachol, byddwn yn eu rhannu yn unol â’r galw.

Os ydych chi yn y diwydiant radio, hoffem glywed eich barn ar sut y dylai hysbysebu’r trwyddedau MW newydd hyn gyd-fynd â’r amserlen bresennol ar gyfer trwyddedu radio masnachol.

# Rhai cwestiynau i chi

Ein gobaith yw clywed gan gymaint o bobl â phosibl cyn pennu'n cynlluniau ar gyfer radio yn derfynol. Yn arbennig hoffem gael eich barn ar ddau brif faes yr adolygiad hwn sef:

- sut y dylem reoleiddio radio masnachol analog lleol; a
- sut y gallwn ei gwneud yn haws i radio digidol dyfu.

Rhowch eich sylwadau ar y cwestiynau isod. Fe welwch fwy o wybodaeth yn y ddogfen ymgynghori lawn ar ein gwefan, yn:
http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/radio_review/

## Rheoleiddio radio masnachol lleol

1 Ydych chi'n cytuno mai fformatau rhaglenni a bennir yn nhrwyddedau gorsafoedd radio ddylai fod ein prif ffordd o'u rheoleiddio ?

2 Sut cawn wneud yn siŵr bod gwrandawyr yn derbyn newyddion lleol a chenedlaethol o safon dda?

- A ddylem ganiatáu hybiau newyddion?
- A ddylai fod rhaid i orsafoedd ddarparu newyddiadurwyr proffesiynol amser llawn, wedi eu lleoli yn eu hardal leol, yn ystod holl oriau rhaglenni lleol?
- Oes ffordd well o amddiffyn ansawdd newyddion sy'n canolbwyntio ar y rhaglenni eu hunain, yn hytrach na sut y cânt eu gwneud?

3 A ddylai gorsafoedd benderfynu drostynt eu hunain faint o awtomeiddio maent yn ei ddefnyddio?

4 A ddylem lacio'r rheol am leoliad stiwdio gorsaf o fewn ardal eu cwmpas mesuredig, a chaniatáu'r 'ardal drwyddedig' yn lle?

5 Ydych chi'n cytuno y dylai gorsaf fod yn rhydd, y tu allan i oriau rhaglenni lleol, i rannu deunydd rhwydwaith fel y mae'n dymuno?

6 A ddylai fod rhaid i orsafoedd gyhoeddi ffeil, yn eu hadeiladau ac ar eu gwefan, i ddangos sut maent yn bodloni eu cyfrifoldebau?

7 Ydych chi'n cytuno â'n canllawiau lleol diwygiedig sy'n dweud wrth orsafoedd beth i'w gymryd i ystyriaeth wrth wneud rhaglenni lleol?

## Helpu radio digidol i dyfu

8 Ydych chi'n cytuno â'n cynlluniau i ryddhau mwy o amleddau ym Mand III VHF, sy'n addas ar gyfer DAB, yn y modd canlynol?

- Tri bloc i ddarparu gwasanaethau radio digidol lleol i ardaloedd sydd hebddynt ar hyn o bryd, ac am rai ardaloedd â chanddynt yn barod.
- Un neu ddau floc am gwmpas cenedlaethol (yn dibynnu ai cyfanswm o bedwar neu bum bloc o sbectrwm sydd ar gael).

9 Ydych chi'n cytuno y dylai sbectrwm arfaethedig radio digidol DAB lleol gael ei ddyfarnu ar ffurf trwyddedau'r Ddeddf Ddarlledu?

10 A ddylai'r blociau amledd y bwriadwn eu rhyddhau am gwmpas cenedlaethol gael eu dyfarnu heb yr angen am drwydded y Ddeddf Ddarlledu?

11 Faint o alw fydd yna yn eich barn chi am sbectrwm cenedlaethol sydd wedi ei ddylunio ar gyfer DAB?

12 A ddylem godi'r cyfyngiad ar swm y data ar gynhwysedd radio digidol DAB, o'r 20% presennol? Os felly, i beth ddylai'r cyfyngiad gael ei godi? Ac yn eich barn chi at beth fyddai'r cynhwysedd ychwanegol yn cael ei ddefnyddio?

13 A ddylem godi'r cyfyngiad ar ddata sydd heb fod yn gysylltiedig â rhaglenni (gan gynnwys radio), ac a gyflwynir ar deledu daearol digidol, o'r cyfyngiad presennol o 10%? Os felly, i beth ddylai'r cyfyngiad gael ei godi?

14 Ydych chi'n cytuno y dylem ddileu'r isafswm safon dechnegol ar gyfer radio digidol DAB a'i ddisodli â system sy'n mesur ansawdd y sain sy'n dod allan o'r radio?

## Trwyddedau yn y dyfodol

15 Sut dylem rannu'r amleddau MW newydd rhwng radio masnachol a chymunedol?

16 Sut dylai hysbysebu trwyddedau MW masnachol newydd ffitio i mewn i'n cynlluniau presennol am drwyddedu FM?

## Ein strategaeth gyffredinol ar gyfer radio

17 Ydych chi'n cytuno â'n nodau sylfaenol dros reoleiddio radio?

- Annog mwy o ddewis, amrywiaeth a syniadau newydd i ddefnyddwyr yn y DU – a hynny'n genedlaethol, yn rhanbarthol, yn lleol ac mewn cymunedau bach.
- Gwarchod buddiannau pob dinesydd drwy gyfrwng radio sydd wedi ei ddylunio er lles y cyhoedd.
- Cyflawni'n nodau gyda chyn lleied o ymyrraeth â'r farchnad â phosibl, ac mewn modd sydd mor gyson â phosibl ar draws pob cyfrwng a phlatfform.

18 Pa mor bwysig yw hi fod gan radio set o 'ddibenion cyhoeddus', a beth ddylai'r rhain fod?

- A gawn ddilyn enghraifft y dibenion cyhoeddus sydd eisoes wedi eu datblygu ar gyfer teledu? (Gweler yr adan ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus (PSB) ar ein gwefan.)
- Beth arall allai gael ei ychwanegu, neu ei hepgor?
- Pa rai o'r dibenion cyhoeddus sy'n bwysicach nag eraill?
- Ydy radio yn well wrth wneud rhai pethau na chyfryngau eraill?

19 Beth yw'r ffordd orau yn eich barn chi o gyflwyno'r dibenion cyhoeddus hyn?

- Pa mor bwysig yw hi i fwy nag un darlledydd ddarparu gwasanaethau radio â dibenion cyhoeddus?
- Faint o'r hyn y mae radio masnachol yn ei wneud a allai gael ei ddisgrifio fel bodloni dibenion cyhoeddus?
- I ba raddau y mae strwythur presennol radio yn helpu i fodloni dibenion cyhoeddus?
- A ddylai fod gan orsafoedd masnachol fynediad i archif radio y BBC, er mwyn iddynt gael darparu gwasanaethau mwy amrywiol?